**ATODIAD 1**

## Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor yn llythyr 26 gan y Cadeirydd

### Cynnydd ers derbyn argymhellion yr adroddiad

*Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o argymhellion adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys nifer ohonynt mewn egwyddor. O 2026 ymlaen, faint o argymhellion yr adroddiadau a restrir isod sydd, yn eich barn chi, wedi cael eu gweithredu'n llawn, eu cyflawni'n rhannol, neu sydd heb eu cyflawni o hyd?*

*o Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol, 2022*

Roedd 15 o argymhellion o'r adroddiad hwn, derbyniwyd 13, derbyniwyd 1 yn rhannol a derbyniwyd 1 mewn egwyddor yn ymateb Llywodraeth Cymru (2022). Rwy'n penderfynu bod 9 argymhelliad wedi'u cyflawni, a bod 4 wedi'u cyflawni'n rhannol.

*o Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, 2023*

Fel rhan o'r adroddiad uchod, gosododd y Pwyllgor 18 o argymhellion; derbyniodd Llywodraeth Cymru 7 ohonynt a derbyniwyd 11 mewn egwyddor. Rwy'n penderfynu bod Argymhellion 4, 5, 13, 14 ac 16, ers mis Chwefror 2026, wedi cael eu cyflawni a bod Argymhellion 1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 15, 17 a 18 wedi cael eu cyflawni'n rhannol.

*o 60% - Rhoi llais iddyn nhw: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, 2023*

Fel rhan o'r adroddiad uchod, gosododd y Pwyllgor 7 o argymhellion; derbyniodd Llywodraeth Cymru 3 ohonynt, derbyniwyd 2 mewn egwyddor a gwrthodwyd 2 ohonynt. Rwy'n penderfynu bod Argymhellion 1, 2, 4 a 7, ers mis Chwefror 2026, wedi eu cyflawni a bod Argymhelliad 5 wedi cael ei gyflawni'n rhannol.

*o Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well, 2023*

O'r 5 argymhelliad a dderbyniwyd neu a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yn dilyn adroddiad Amser rhoi diwedd ar dlodi plant 2023, rwy'n penderfynu bod Argymhellion 1, 4 a 5, ers ,is Chwefror 2026, wedi cael eu cyflawni'n rhannol a bod argymhellion 2 a 3 wedi cael eu cyflawni'n llawn.

*o Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Cau'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd yng Nghymru, 2025*

O'r 7 argymhelliad a dderbyniwyd neu a dderbyniwyd mewn egwyddor, mae argymhellion 2,4,5, a 7 wedi cael eu gweithredu'n llawn ac mae argymhellion 1, 3 a 6 wedi cael eu cyflawni'n rhannol gyda gwaith yn mynd rhagddo.

- *Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y Cyhoedd (2024)*

Roedd 11 o argymhellion i Lywodraeth Cymru o'r adroddiad hwn, derbyniwyd 9, a derbyniwyd 2 mewn egwyddor yn ymateb Llywodraeth Cymru (2024).

**Trais ar sail rhywedd - Menywod mudol**

*O ganlyniad i adroddiad y Pwyllgor, sefydlodd Llywodraeth Cymru gronfa argyfwng ar gyfer menywod mudol. Beth yw statws y gronfa hon ar hyn o bryd ac a oes unrhyw werthusiad wedi'i gynnal i asesu ei heffaith ar fenywod mudol?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ar gyfer 2023/24 a 2024/25 fe wnaethom ariannu Peilot y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais a oedd yn ategu cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol y Swyddfa Gartref. Nod yr atodiad oedd cefnogi dioddefwyr mudol yng Nghymru sy'n destun amodau i bobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn gallu aros yn hirach mewn llety wedi'i ariannu, ochr yn ochr â mwy o gyllid cynhaliaeth i gefnogi mynediad haws at fwyd a hanfodion eraill. Yn ystod 2024/25, mae 161 o bobl wedi cael eu cefnogi drwy'r cynllun Cymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr a chynllun peilot y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais.

Yn sgil cynnydd sylweddol yng nghynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol y Swyddfa Gartref ar gyfer 2025/26, gwerthusiad mewnol o'r cynllun peilot ac ymgysylltu â'r sector, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ailgyfeirio'r cyllid hwn i addasu i anghenion dioddefwyr mudol a goroeswyr a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi ledled Cymru. Ariannwyd dau weithiwr allweddol drwy ddyraniad grant craidd i sicrhau mynediad haws at gymorth arbenigol i'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth ac sydd hefyd yn destun amodau i bobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Ar ben hynny, yn ystod 2025/26, darparwyd hyfforddiant mewnfudo arbenigol ar gyfer tua 100 o weithwyr proffesiynol ledled Cymru i annog mynediad haws at wybodaeth i ddioddefwyr a goroeswyr. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector arbenigol yng Nghymru i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus yn effeithiol, gan gyd-fynd â Chynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol y Swyddfa Gartref.

**Cyfiawnder Troseddol**

Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

*A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe? Yn benodol, byddem yn croesawu eglurhad ar y cynnydd hyd yma, yr amserlen bresennol ar gyfer cyflawni, ac unrhyw faterion sydd heb eu datrys - megis cynllunio, cyllido neu weithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF - a allai effeithio ar weithredu.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y Ganolfan Breswyl i Fenywod. Fodd bynnag, fel y gwyddoch efallai, mae caniatâd adeiladu a chynllunio wedi'u cadarnhau, ac mae'r Ganolfan yn parhau i fod yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru. Bydd yn gwella bywydau menywod yng Nghymru, gan

ddarparu gwasanaethau therapiwtig ac adsefydlu fel rhan o ddull gweithredu sy’n ystyriol o drawma.

Rydym yn deall ei bod yn bwysig bod menywod yn cadw mewn cysylltiad â’u teuluoedd, yn enwedig gan fod llawer ohonynt yn byw mewn cyfleusterau ar draws y ffin yn Lloegr ar hyn o bryd. Bydd y Ganolfan yn galluogi menywod i aros yn nes at eu cartref a chynnal cysylltiadau teuluol hanfodol, yn enwedig gyda’u plant. Drwy ddarparu cymorth yn nes at adref, bydd y Ganolfan hefyd yn helpu i fynd i’r afael â’r materion sylfaenol sy’n cyfrannu at ymddygiad troseddol, megis materion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu drais domestig.

Mae’r Cwnsler Cyffredinol a minnau’n ymgysylltu’n rheolaidd â Gweinidogion Cyfiawnder Llywodraeth y DU a phartneriaid allweddol sy’n arwain ar y rhaglen waith bwysig hon.

Rydym yn gwerthfawrogi diddordeb y Pwyllgor yn y gwaith hwn. Mae’n werth nodi fy mod wedi ateb Cwestiwn Llafar gan Altaf Hussain AS ar 14 Ionawr 2026, ynghylch agor y Ganolfan. Yn fy ymateb, fe wnes i gadarnhau y byddaf yn cwrdd yn fuan â’r Arglwydd Timpson, y Gweinidog dros Garchardai, y Gwasanaeth Prawf a Lleihau Aildroseddu, i helpu i ddeall y sefyllfa ddiweddaraf yn llawn.

Yn y cyfamser, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio’n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Ganolfan yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn cael ei datblygu cyn gynted â phosibl.

<u>Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid</u>
*Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cael eu nodi’n gynnar yn ystod y cyfnod pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, o ystyried ei bwysigrwydd o ran atal ymglymiad â’r system cyfiawnder ieuenctid yn nes ymlaen?*

*Sut mae’r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio i gryfhau cymorth cyffredinol ac wedi’i dargedu gydag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn lleoliadau addysg?*

*Faint o ymrwymiadau sy’n gysylltiedig ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid sydd wedi cael eu cyflawni hyd yma, a pha rai sy’n parhau i fod heb eu cyflawni?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae gwaith Llywodraeth Cymru hyd yma ar nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, gyda buddsoddiad o £1.5m ym Mhrosiect Pengwin, ein pecyn gwyliadwriaeth ac ymyrraeth lleferydd, iaith a chyfathrebu dwyieithog ar gyfer plant o dan 5 oed.

Mae gweithio ar y cyd ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ‘Siarad gyda Fi’ a’r Cwricwlwm i Gymru, wedi arwain at feithrin capasiti pellach yn y gweithlu. Gyda’n gilydd, rydym yn datblygu llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu a fydd yn helpu ymarferwyr sy’n gweithio â phlant 5-16 oed i nodi eu hanghenion hyfforddi a chael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn cryfhau eu sgiliau a gwella canlyniadau i bob dysgwr.  Ochr yn ochr â hyn, mae modiwl hyfforddi lleferydd, iaith

a chyfathrebu wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Hwb, a bydd y ddau fodiwl yn mynd yn fyw dros yr wythnosau nesaf. Mae'r rhain yn ategu'r gefnogaeth bresennol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant 0-4 oed, gan sicrhau dull system gyfan cydlynol o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd.

Cyflwynodd y tîm Ysgolion Bro hefyd ymyriad ataliol ysgafn yn seiliedig ar negeseuon allweddol Siarad gyda Fi ar gyfer datblygiad cynnar lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae ymgynghoriad ar 'Siarad gyda Fi cam 2' yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae'n cynnwys cynigion i atgynhyrchu'r dull hwn ar gyfer plant 5-11 oed.

Drwy'r Cwricwlwm i Gymru, mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn rhan o'r sgil trawsgwricwlaidd orfodol o lythrennedd sy'n golygu eu bod wedi'u gwreiddio ar draws dysgu. Mae ein buddsoddiad cenedlaethol mewn llythrennedd - dros £13 miliwn mewn dysgu proffesiynol a rhaglenni wedi'u targedu - yn cryfhau gallu athrawon i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn ymarfer ystafell ddosbarth bob dydd ar draws pob cyfnod. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni megis Ein Llais Ni, sy'n gwella addysgeg llafaredd ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ac yn cefnogi dulliau cyson o fonitro cynnydd dysgwyr. Mae prosiect CAL:ON yn datblygu asesiadau i helpu ysgolion i nodi dysgwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol ac i ganfod anawsterau'n gynnar er mwyn gallu rhoi cymorth wedi'i dargedu ar waith cyn i'r bylchau ehangu.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, cafodd y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019, ac yn bwysig iawn cafodd ei gyflwyno ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Nododd ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan fabwysiadu dull gweithredu 'plant yn gyntaf'; gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth, gan ddiwallu anghenion unigol plant yn y system gyfiawnder neu'r rhai hynny sydd mewn perygl o ddod ar draws y system gyfiawnder. Mae'r Glasbrint wedi symud i gyfnod cyflawni newydd ers mis Ebrill 2025, wrth i ni edrych i adeiladu ar y fframwaith presennol a pharhau i wreiddio arferion gorau. Er mwyn cynnal dull gweithredu cydgysylltiedig a chydnabod anghenion penodol plant, fe wnaethom gyhoeddi'r FFRAMWAITH ATAL Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Fframwaith yn rhoi un darlun o'r hyn sy'n gweithio i atal troseddu, a sut rydym yn cefnogi plant agored i niwed tuag i fyw bywydau boddhaus heb droseddu.

Carchardai a'r gwasanaeth prawf

*Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran archwilio sut y gellid addasu elfennau o Fodel Manceinion - yn enwedig integreiddio'r gwasanaeth prawf â gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni'n lleol a strwythurau llywodraethu datganoledig - ar gyfer Cymru, ac a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF ynghylch treialu neu weithredu dull tebyg yma?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu adroddiad yn archwilio sut y gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) fod yn berthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn bellach wedi'i gwblhau ac wedi'i

rannu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i'w adolygu. I gefnogi'r gwaith o greu model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n addas ar gyfer cyd-destun Cymru ac i fanteisio ar arbenigedd gweithredol, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) wedi secondio gweithiwr i Lywodraeth Cymru i arwain y ffrwd waith hon.

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym yn Llywodraeth Cymru i ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i gytuno ar y meysydd allweddol y bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymdrin â nhw, gyda'r bwriad o gwblhau'r meysydd hyn erbyn diwedd mis Chwefror 2026. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi mynegi yn genedlaethol ac yng Nghymru eu cefnogaeth i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac felly'r bwriad yw cael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno ar waith erbyn diwedd 2026.

*Yn sgil y pryderon diogelwch difrifol a amlygwyd yn CEF Y Parc a'r diffyg eglurder ynghylch pam mae Cymru yn parhau i fod â chyfradd mor anghymesur o uchel o garcharu, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i atal unrhyw gynlluniau i ehangu CEF Y Parc, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd mewn ymateb i'r materion a godwyd ym mriffiad diweddar Dr Rob Jones ar amodau a diogelwch yn y carchar? Mae copi o friff Dr Rob Jones i'r Pwyllgor o fis Rhagfyr 2025 wedi'i atodi.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Fel y gwyddoch, nid yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli i Gymru eto. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw carchardai a rheoli troseddwyr, a nhw yw'r ffynhonnell wybodaeth orau a mwyaf priodol o hyd am faterion gweithredol ar draws system garchardai Cymru a Lloegr. Rydym yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar feysydd lle mae gennym gyfrifoldebau, megis iechyd, tai a gofal cymdeithasol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i helpu i liniaru'r risg o niwed i staff a charcharorion yn y dyfodol.

Cefais gyfarfod â Dr Robert Jones ar 3 Rhagfyr 2025, i drafod ei bapur briffio diweddar o'r enw, 'The Expansion of HMP Parc: Wales' (Growing) Imprisonment Rate' ac mae'n dda bod Dr Jones wedi rhannu'r papur briffio hwn gyda'r Pwyllgor yn yr un modd ym mis Rhagfyr 2025.

Mae'n briodol bod academyddion yn craffu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac rwyf wedi mynegi fy niolchgarwch i Dr Jones a'i dîm yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, am eu gwaith a'u hymchwil ymroddedig i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Yn dilyn fy nghyfarfod gyda Dr Jones, ysgrifennais at yr Arglwydd Timpson, y Gweinidog dros Garchardai, y Gwasanaeth Prawf a Lleihau Aildroseddu, ar 22 Rhagfyr 2025. Nododd fy llythyr ymddangosiad yr Arglwydd Timpson yn y Pwyllgor Materion Cymreig ar Garchardai, y Gwasanaeth Prawf ac Adsefydlu yng Nghymru, ar 17 Rhagfyr 2025. Yn ei ymddangosiad gyda'r Pwyllgor, cafodd yr Arglwydd Timpson gwmni Ian Barrow, Prif Weithredwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru, a rannodd y bydd 160 aelod ychwanegol o staff yn cael eu cyflogi yng CEF Y Parc, i hwyluso'r gwaith ehangu. Er gwaethaf y sicrwydd hwn, roedd fy llythyr

at yr Arglwydd Timpson yn tynnu sylw at nifer o faterion a goblygiadau i Gymru mewn perthynas â'r ehangu. Rhannais hefyd copi o bapur briffio Dr Jones â'r Arglwydd Timpson.

Byddaf yn mynychu cyfarfod Bwrdd Crwn Glasbrint Cyfiawnder Menywod ar 11 Chwefror 2026, sy'n cael ei gadeirio gan Ian Barrow, Prif Weithredwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru. Bydd Dr Rob Jones yn bresennol yn y digwyddiad ac yn cyflwyno ei Ffeil Ffeithiau ar gyfer 2024. Bydd cynrychiolwyr o sefydliadau'r Trydydd Sector, Undebau Ynadon ac Undebau Cyfiawnder, ymhlith eraill, yn bresennol yn y digwyddiad hefyd.

Ein gweledigaeth yw cael dull o ymdrin â chyfiawnder sy'n ataliol ac yn ystyriol o drawma, sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac sy'n atal troseddu rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae angen dull gweithredu hirdymor i fynd i'r afael â'r materion hirsefydlog hyn.

Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â'r Arglwydd Timpson ac Ian Barrow ac rwyf wedi gofyn am gael trafod ehangu CEF Y Parc yn fanylach gyda'r Arglwydd Timpson pan fyddwn yn cyfarfod eto'n fuan.

**Tlodi plant**

*Sut byddech chi'n ymateb i Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025? Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd cynnwys y strategaeth yn ei chael ar eich ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod Strategaeth y DU yn canolbwyntio'n gryf ar bolisïau Lloegr yn unig, mae llawer y gallwn ei groesawu yn y strategaeth a fydd yn cefnogi ein camau gweithredu ein hunain yma yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dileu'r Terfyn Dau Blentyn yr ydym wedi bod yn galw amdano. Mae hwn yn gam hanfodol i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, gan ddod â rhyddhad i 69,000 o blant yng Nghymru a lleihau cyfraddau tlodi plant cymharol hyd at dri i bedwar pwynt canran.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU yn ymdrin â nifer o feysydd gan gynnwys rhoi hwb i incwm teuluoedd, lleihau costau hanfodion a chryfhau cymorth lleol i deuluoedd. Ar 2 Rhagfyr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cynnydd ein hunain o ran Strategaeth Tlodi Plant yn amlinellu'r camau sylweddol rydym yn eu cymryd ar draws y llywodraeth, gan ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael i ni yng Nghymru i fynd i'r afael â Thlodi Plant ac i liniaru effeithiau gwaethaf byw mewn tlodi.

Rydym yn croesawu'r ymgysylltu cadarnhaol â Llywodraeth y DU ar ddatblygu'r strategaeth ac edrychwn ymlaen at barhau â'r ymgysylltu hwn wrth gyflawni ein hamcanion cyffredin a'n blaenoriaethau ar gyfer Cymru.

*Sut ydych chi wedi gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i ddeall yn well yr adnoddau deddfwriaethol a chyllidol, yn ogystal ag adnoddau eraill, a fyddai eu hangen i wneud taliad tebyg i Daliad Plant yr Alban*?

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae swyddogion wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban er mwyn deall yn well sut mae Taliad Plant yr Alban yn cael ei gynllunio, ei ddarparu a'r adnoddau sydd ar gael ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi defnyddio dogfennau gwerthuso a pholisi sydd ar gael i'r cyhoedd ac wedi gofyn am gyngor cyfreithiol cychwynnol ar gymhwysedd Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymgysylltu â'r Alban a'r ymchwil ehangach a wnaed wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well fanteision posibl taliad uniongyrchol i blant a maint yr heriau sy'n gysylltiedig ag atgynhyrchu cynllun tebyg yng Nghymru o ran deddfwriaeth, cyllid a chyflawni. Mae'r wybodaeth hon yn parhau i lywio dull ehangach Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi plant.

**Bwlch cyflogaeth anabledd**

*Yn dilyn y diweddariad a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y cynnydd o ran cyflawni Argymhelliad 4, a all Llywodraeth Cymru ddarparu copi o'r llythyr a anfonwyd at bob corff sector cyhoeddus datganoledig ac awdurdod lleol yng Nghymru yn eu hannog i gymryd camau i ddod yn 'Arweinydd' Hyderus o ran Anabledd a gosod amserlen ar gyfer ei gyflawni.*

Mae'r llythyr a ddarperir yma wedi cael ei anfon at yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

PDF
Anything's
Achievable with the R

PDF
Anything's
Achievable with the R

Mae'r llythyr yn cynnwys y canlynol-

- Mae Llywodraeth Cymru wedi annog cyrff cyhoeddus i adolygu polisïau cyflogaeth a gweithio tuag at statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd o fewn amserlen benodol.
- Anogir sefydliadau i gyd-fynd â'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl a dileu'r bwlch cyflogaeth anabledd fel amcan ffurfiol.
- Mae cymorth ar gael drwy Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a'r fforwm newydd ar gyfer Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd yng Nghymru.

*Pa ran y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chwarae yn 'Adolygiad Timms' a pha dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyflwyno fel rhan o'r adolygiad.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dechrau'r adolygiad Taliadau Annibynnol Personol na'r adolygiad 'Timms' hyd yn hyn ac mae'n dal i recriwtio aelodau ar gyfer Grŵp Llywio'r Adolygiad. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod y cam cynllunio adolygiad.

Mae aelodau Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru a chyn-aelodau'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl wedi cael eu hannog i wneud cais i fod yn rhan o Grŵp Llywio'r Adolygiad, a fydd yn goruchwylio'r adolygiad, yn casglu tystiolaeth, ac yn datblygu argymhellion i wella'r Taliad Annibyniaeth Personol.

Mae'r Gweinidog Timms wedi cwrdd â'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl i drafod cyd-gynhyrchu effeithiol, gan sicrhau bod lleisiau pobl anabl yng Nghymru yn cael eu clywed, a phwysigrwydd y model cymdeithasol o anabledd sy'n sail i'r adolygiad a'i argymhellion.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip wedi cwrdd â'r Gweinidog Timms sawl gwaith, gan dynnu sylw at Gynllun Hawliau Pobl Anabl Cymru, ac annog Llywodraeth y DU i ddysgu o'r gwaith hwn.

Mae swyddogion yn cwrdd yn fisol â chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i drafod yr adolygiad.

*Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fwrw ymlaen â gwaddol y rhaglen Ymgysylltu i Newid a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, gan gynnwys pa gamau y mae'n eu cymryd i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gael cyflogaeth ystyrlon.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar waddol Ymgysylltu i Newid drwy gryfhau cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl anabl drwy gymysgedd o ymgysylltu â chyflogwyr, rhaglenni wedi'u teilwra a chymorth wedi'i dargedu.

Mae rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a Chynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru yn cefnogi cyflogwyr o bob maint i wella'r broses o recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr anabl. Mae adnoddau newydd ar-lein i gyflogwyr hefyd yn rhoi arweiniad ymarferol.

Gall pobl o bob oed (gan gynnwys pobl 16-24 oed) sydd ag anabledd dysgu, anhawster dysgu a/neu awtistiaeth gael help i symud i waith cyflogedig drwy hyfforddiant swydd, gyda help amrywiaeth eang o raglenni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru + (gan gyflenwi darpariaeth Cyflogaeth â Chefnogaeth). Mae gennym hefyd Lleoliad a Chymorth i Unigolion a'r Gwasanaeth Di-waith. Mae'r holl wasanaethau hyn yn cynnig cyngor personol ar yrfaoedd, mentora, datblygu sgiliau, magu hyder a symud ymlaen i hyfforddiant neu waith.

Mae prentisiaethau'n parhau i fod yn gwbl hygyrch, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu 100% o'r costau hyfforddi ac yn cynnig Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer prentisiaid anabl. Mae cyfranogiad wedi tyfu i 13% o'r prentisiaethau sy'n dechrau.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

*Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar ei newydd wedd ar gael ar hyn o bryd fel dogfen gryno. Allwch chi ddarparu'r ddogfen dechnegol lawn?*

Mae copi o ddogfen dechnegol lawn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i atodi.

*Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cynnydd yn 2023. Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun*?

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar ei newydd wedd yn ystyried adroddiad cynnydd 2023 ac argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Cymru Wrth-hiliol (senedd.cymru).

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi traciwr cynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar wefan Llywodraeth Cymru.  Yn gyffredinol, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn parhau i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a thryloywder, gan sicrhau bod profiad uniongyrchol yn parhau i fod yn ganolog i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac adeiladu momentwm ar draws y sector cyhoeddus.

*Beth sydd wedi newid i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ers cyhoeddi'r cynllun a darparwch tystiolaeth i gefnogi hyn.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd gwerthusiad cynhwysfawr, sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd, yn casglu tystiolaeth feintiol, ansoddol a phrofiad bywyd ynghylch gweithredu ac effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Ar wahân, daeth gwerthusiad o raglen grantiau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i'r casgliad bod y rhaglen wedi cyfrannu at nodau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gydag effeithiau cadarnhaol ar sawl lefel, gan gynnwys ar gyfer unigolion, sefydliadau a sectorau. Roedd hyn yn cynnwys ehangu mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau a chwaraeon; mwy o ymgysylltu a chydweithio â'r gymuned; gwell sgiliau, iechyd corfforol a meddyliol; a hyrwyddo mwy o empathi a dealltwriaeth rhwng cymunedau.

*Darparwch yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu dangosfwrdd sy'n dangos gwahaniaethau mewn canlyniadau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru a 'mapio dangosyddion'.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym i fod i gyhoeddi fframwaith dangosyddion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd heb ei boblogi erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Mae dangosfwrdd prototeip wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar y fframwaith hwn - sy'n dwyn ynghyd ddata sydd ar gael i'r cyhoedd mewn un lle - i'w ddefnyddio gan y Grŵp Atebolrwydd Allanol. Rydym yn edrych ar ddulliau o gyhoeddi neu grynhoi'r dangosfwrdd mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb yng Nghymru.

*Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariad ysgrifenedig ar*

***Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2025**: Pa effaith ymarferol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, y mae'r Ddeddf wedi'i chael ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr yng Nghymru ers ei chyflwyno, a sut mae mesurau ledled y DU wedi'u hintegreiddio â fframweithiau cymorth a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol datganoledig Cymru?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ar y cyfan, rydym yn cefnogi darpariaethau'r Ddeddf i wella gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, a'r angen i gydweithio i sicrhau bod cymorth cyson i ddioddefwyr yn cyd-fynd â darpariaethau yn ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015). Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i bennu'r effeithiau y mae'r Ddeddf yn eu cael ar ddioddefwyr yng Nghymru.

Mewn ymateb i adran 16 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau statudol am y rolau cymorth penodol i ddioddefwyr - Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Gan fod y canllawiau'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl yng Nghymru yn unig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus ac arbenigol yng Nghymru, dioddefwyr a goroeswyr, a chynrychiolwyr o bob rhan o asiantaethau a gedwir yn ôl sy'n gweithio yng Nghymru, i gael cipolwg ar ba mor dda mae'r canllawiau statudol yn adlewyrchu cyd-destun Cymru, gan ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr, ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau. Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, rydym nawr yn ystyried opsiynau mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r canllawiau a gyhoeddwyd - bydd unrhyw ganllawiau penodol i Gymru yn ystyriol o drawma ac wedi'u gwreiddio ym mhrofiadau uniongyrchol dioddefwyr ac ymarferwyr.

***Noeth-chwiliadau o blant gan heddluoedd Cymru**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod data cywir, safonol ar noeth-chwiliadau plant (gan gynnwys dadansoddiadau o ran ethnigrwydd) yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi i gefnogi craffu a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau hawliau plant*?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yr ydym yn cymryd y mater hwn o ddifrif, i amddiffyn plant yng Nghymru ac i sicrhau pwysigrwydd ymddygiad priodol gan yr heddlu. Felly, yr wyf wedi trafod y mater mewn cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, sy'n gyfrifol am blismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Gall noeth-chwiliadau fod yn hynod drawmatig i blant, ac mae'n hanfodol i'r heddlu sicrhau ei fod yn digwydd dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol, gyda mesurau diogelu cadarn ar waith. Ymhob achos dylai noeth-chwilio fod â chyfiawnhad llawn, ei gynnal yn briodol a'i ddefnyddio fel dewis olaf. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb oedolyn priodol.

Mae'r term 'noeth-chwilio' yn cwmpasu ystod eang o weithgaredd. Yn hollbwysig, nid yw'n gwahaniaethu rhwng gofyn i rywun dynnu eitem allanol o ddillad, megis siaced, a chwiliad llawer mwy personol. Mae'n bwysig ein bod yn deall yr iaith gynnil hon, er mwyn sicrhau bod data cywir yn cael ei gasglu i gefnogi dealltwriaeth gynhwysfawr o

sut mae chwiliadau'n cael eu defnyddio a pha gamau gweithredu a allai fod yn angenrheidiol i wella arfer ymhellach.

Mae gan blismona yng Nghymru bortffolio Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant sefydledig ac mae noeth-chwilio plant yn un o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer y grŵp hwnnw. Cadeiryddion y grŵp hwn yw Dirprwy Brif Gwnstabl, Nicky Brian (Heddlu Gwent), Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (Heddlu Dyfed Powys) a Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Eleri Thomas (Heddlu Gwent). Mae Uned Gyswllt yr Heddlu wedi hefyd creu dangosfwrdd data ar gyfer y portffolio Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant sy'n canolbwyntio ar stopio a chwilio. Mae hwn yn casglu data o bob rhan y pedwar heddluoedd yng Nghymru ar stopio a chwilio (gan gynnwys noeth-chwiliadau) ac yn galluogi craffu a llywodraethu canolog ym mhortffolio Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant.

***Defnyddio Gynnau Taser***: *Pa sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi'i gael gan Lywodraeth y DU ynghylch y sylfaen dystiolaeth, yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a chynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant cyn awdurdodi Taser 10 mewn unrhyw ffordd ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, o ystyried y pryderon a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2025 ynghylch effeithiau negyddol neu anghymesur posibl ar blant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig*?

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ysgrifennodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ataf ar 4 Gorffennaf 2025, i dynnu fy sylw at y posibilrwydd o awdurdodi Taser 10, i'w ddefnyddio gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn, ysgrifennais at y cyn-Weinidog Plismona ac Atal Troseddu, y Fonesig Diana Johnson, ar 17 Gorffennaf 2025. Roedd fy llythyr yn cadarnhau ein hymrwymiad i system cyfiawnder troseddol yng Nghymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ystyriol o drawma, er mwyn atal troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Nodais waith cadarnhaol y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a phwysleisiais ein hymrwymiad i ddarparu hawliau plant yng Nghymru. Fe wnes i hefyd cadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau Cymru Wrth-hiliol gyda'n Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Yn fy llythyr, codais bryderon gyda'r Gweinidog, y gallai'r safbwynt polisi hwn fod yn anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gofynnais am ragor o fanylion am y sylfaen dystiolaeth a'r asesiadau a gynhaliwyd, i sicrhau nad yw'r dull hwn o weithredu yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc ac nad yw'n cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Gofynnais hefyd am ragor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch sut mae Llywodraeth y DU yn bwriadu asesu effaith y safbwynt polisi hwn ar blant, yng Nghymru a Lloegr, gan holi'n benodol a fyddai Llywodraeth y DU yn cynnal ac yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Atebodd y cyn-Weinidog Plismona ac Atal Troseddu fy llythyr ar 29 Gorffennaf 2025. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yn rhaid i adrannau a heddluoedd Llywodraeth y DU roi sylw dyladwy i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys ystyried o'r effaith bosibl

polisïau a phenderfyniadau ar bob grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal ag ar blant. Nododd y Gweinidog y byddai Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) ar gyfer Taser 10. Yn ôl y Gweinidog, byddai'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ystyried unrhyw risgiau a mesurau lliniaru perthnasol, mewn perthynas ag effaith model newydd o wn Taser pe bai'n cael ei ddefnyddio ar blant.

Nododd y Gweinidog fod dull Llywodraeth y DU o ddefnyddio grym, gan gynnwys gynnau Taser, yn cyd-fynd ag Erthyglau 2 a 3 o Egwyddorion Sylfaenol y Cenhedloedd Unedig ar Ddefnyddio Grymoedd ac Arfau Tanio. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod adegau pan fydd swyddogion yn barnu ei bod yn angenrheidiol yn weithredol i'r heddlu ddefnyddio gwn Taser, gan gynnwys ar blant, er budd diogelwch y cyhoedd.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod nifer o fesurau diogelu a lliniaru ar waith o ran defnydd yr heddlu o gynnau Taser. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau lliniaru penodol ar gyfer defnyddio gwn Taser ar blant. Rhaid i bob swyddog a ddewisir i ddefnyddio gwn Taser basio rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ac mae angen iddynt werthfawrogi effeithiau corfforol a seicolegol y ddyfais ar blant. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi swyddogion i gael dealltwriaeth drylwyr o sgiliau tawelu ac i ystyried bregusrwydd posibl unigolyn a ffactorau megis oedran a thaldra wrth asesu pob sefyllfa. Ar ben hynny, mae canllawiau'r Coleg Plismona yn nodi bod yn rhaid i unigolion yn nalfa'r heddlu, y mae gwn Taser wedi ei ddefnyddio arnynt, gael eu harchwilio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig sy'n gweithio ym maes Meddygaeth Fforensig Gyffredinol.

Ers i mi ymgysylltu â'r cyn-Weinidog ar y mater hwn, deallaf fod Taser 10 wedi cael ei gymeradwyo'n genedlaethol gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, er mis Hydref 2025. Mae Uned Gyswllt yr Heddlu hefyd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bod Heddluoedd Cymru wrthi'n cael yr hyfforddiant angenrheidiol, er mwyn cyflwyno'r dyfeisiau newydd yn weithredol o fis Mawrth 2026 ymlaen.

Er ein bod yn gweithio'n agos gyda Phlismona yng Nghymru ar feysydd o ryngwyneb a diddordeb ar y cyd ar draws ein cyfrifoldebau, mae gan yr heddluoedd ymreolaeth dros y penderfyniadau gweithredol y maent yn eu gwneud, a byddai'n amhriodol i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau ar faes ymarfer a gedwir yn ôl neu ymyrryd mewn achosion unigol. Y Prif Swyddogion fydd yn penderfynu a ddylid awdurdodi Taser 10 yn ardal eu heddlu, gan gynnwys yng Nghymru, ar sail eu hasesiad o fygythiadau a risgiau.